**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Niamh Smyth TD
Cathaoirleach
Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau,
Chwaraeon a'r Cyfryngau
Tai'r Oireachtas

23 Mai 2024

Annwyl Niamh,

Mae Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn cynnal ymchwiliad sy'n edrych ar **Ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd**.

Mae dros tair blynedd bellach ers i'r trefniadau ar ôl Brexit gael eu cyflwyno ar gyfer gweithio a masnachu rhwng y DU a'r UE, ac mae cyfyngiadau newydd ar artistiaid teithiol wedi cael sylw eang. Mae'r Pwyllgor yn ystyried yr effeithiau a welwyd yn sgil ymadawiad y DU â'r UE ar y sector diwylliant, a bydd yn trafod materion fel:

- effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac sy'n gweithio ar draws ffiniau (gan gynnwys teithio a gweithio yng Nghymru);
- effaith y trefniadau masnachu newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau diwylliannol;
- argaeledd arweiniad a chymorth i'r sector sy'n ymwneud â'r berthynas newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd;
- yr effaith ar fynediad at raglenni a rhwydweithiau cyllido; ac
- unrhyw newid i'r berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a allai wella'r ffordd o weithio ar draws ffiniau ar gyfer y sector diwylliant.

Yn adroddiad ein hymchwiliad ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gwnaethom ymrwymo i arwain y ffordd wrth lunio cysylltiadau rhyng-bwyllgor a rhyng-seneddol â'r Oireachtas. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut y gallwn arwain a hyrwyddo gwaith rhyng-seneddol rhwng Cymru ac

Iwerddon yn y Senedd. Gyda hynny mewn golwg, ac o ystyried ein diddordeb cyffredin mewn diwylliant, penderfynodd y Pwyllgor ddwyn ein hymchwiliad i'ch sylw. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn, yn enwedig ar yr effeithiau a deimlir gan artistiaid a gweithwyr diwylliannol Gwyddelig. Hoffem eich gwahodd i roi tystiolaeth ysgrifenedig i'n cynorthwyo gyda'r ymchwiliad hwn.

Byddem yn ddiolchgar o gael unrhyw gyfraniad ysgrifenedig gennych erbyn dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.